

Hysbysiad hwylus

Diwygio'r PAC ar ôl 2013 – Rhif 2

Rhagfyr 2010

Beth yw'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a pham ei fod yn bwysig i Gymru?

Cyhoeddwyd yr **Hysbysiad hwylus cyntaf yn y gyfres hon** ym mis **Chwefror 2010**. Roedd yn cynnwys esboniad o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), hanes diwygio'r polisi, y prif faterion sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r diwygiad presennol a'r amserlen a'r broses ar gyfer y diwygio hwnnw.

Ar 19 Tachwedd 2010, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei ddogfen gyfathrebu gyntaf ar ddiwygio'r PAC ar ôl 2013, sy'n dwyn y teitl *The CAP towards 2020: Meeting the food, natural resources and territorial challenges of the future* ("y ddogfen gyfathrebu").¹ Mae'r ddogfen gyfathrebu'n cynnig tri opsiwn posibl ar ddiwygio'r PAC yn y dyfodol. Mae'r Hysbysiad hwylus hwn, sef yr ail yn y gyfres, yn cynnwys crynodeb o'r opsiynau hyn, pa gyd-destun a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r cynigion hyn a'r ymateb cyntaf iddynt.

Mae diwygio'r PAC yn bwysig i Gymru **oherwydd bod ffermwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru yn derbyn cyllideb o tua £390 miliwn y flwyddyn**² gan y PAC, ac i fwyafrif o'r ffermwyr yng Nghymru, y PAC sydd i gyfrif am y **gyfran fwyaf o broffidoldeb ei fferm**.³

Beth yw'r cyd-destun ar gyfer diwygio'r PAC?

Dechreuodd y Comisiwn Ewropeaidd **ddadl gyhoeddus ar ddyfodol y PAC ar ôl 2013** ym mis **Ebrill 2010** lle gofynnodd am farn rhanddeiliaid am beth ddylai amcanion a chyfeiriad cyffredinol y polisi fod. Daeth y ddadl gyhoeddus i ben gyda chynhadledd ddeuddydd i drafod **casgliadau'r ddadl ym mis Gorffennaf 2010**.⁴ Canlyniad y ddadl gyhoeddus oedd bod y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd yn gefnogol i **bolisi cyffredin cryf** wedi'i strwythuro o amgylch **dwyllo golofn**. Cafwyd consensws hefyd am beth ddylai'r PAC fod ar ôl 2013.

¹ Y Comisiwn Ewropeaidd, *The CAP towards 2020: Meeting the food, natural resources and territorial challenges of the future*, COM(2010)672, Tachwedd 2010 [fel ar 29 Tachwedd 2010]

² Cofnod o'r Trafodion, *Dadl yn y Siambr ar adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin*, 3 Tachwedd 2010

³ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu dyfodol cadarn Atodiad 1: Heriau'r Diwydiant*, Mai 2009, [fel ar 29 Tachwedd 2010]

⁴ Y Comisiwn Ewropeaidd, *Public debate on the CAP Post-2013*, gwefan, [fel ar 29 Tachwedd 2010]

Y rhain oedd:

- Diogelwch bwyd a darpariaeth amrywiol o fwyd o safon uchel,
- Creu a chynnal cyflogaeth wledig, a
- Ffermio cynaliadwy sy'n diogelu'r amgylchedd ac sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.

Ym **mis Mehefin 2010**, mabwysiadodd yr Undeb Ewropeaidd **Strategaeth Ewrop 2020** sy'n nodi strategaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer tyfu dros y degawd nesaf. Mae gan y strategaeth **dri nod cyffredinol** a bydd rhaid i Bolisi Amaethyddol Cyffredin yn y dyfodol ymateb iddo. Y rhain yw, bod rhaid i'r Undeb Ewropeaidd **ddatblygu economi ddoeth, gynaliadaw y a chynhwysol**. Yn y papur cyfathrebu a gyhoeddwyd ar 19 Tachwedd, mae'r Comisiwn yn nodi sut y bydd PAC yn y dyfodol yn cyfrannu at yr amcanion hyn:

- **Twf doeth** – Bydd PAC yn y dyfodol yn cyfrannu at dwf doeth drwy gynyddu effeithiolrwydd ac ysfa gystadleuol adnoddau, cefnogi datblygu technolegau gwyrdd a buddsoddi mewn hyfforddiant;
- **Twf cynaliadwy** – Bydd PAC yn y dyfodol yn cyfrannu at dwf cynaliadwy drwy ddarparu nwyddau cyhoeddus amgylcheddol, sicrhau y caiff tir ei reoli'n gynaliadwy, cynyddu stoc carbon a lleihau allyriadau a hyrwyddo ynni cynaliadwy;
- **Twf cynhwysol** – Bydd PAC yn y dyfodol yn cyfrannu at dwf cynhwysol drwy ddatgloi potensial economaidd ardaloedd gwledig, datblygu marchnadoedd lleol a chefnogi incwm ffermwyr er mwyn cynnal ffermio cynaliadwy ledled Ewrop.

Bydd **Adolygiad o Gyllideb yr Undeb Ewropeaidd**, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, yn nodi **persbectif ariannol** yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer **2014-2020**. Bydd yr adolygiad o gyllideb yn effeithio'n sylweddol ar ddyfodol PAC gan fod y PAC i gyfrif am tua **40 y cant o gyllideb yr Undeb Ewropeaidd**. Cyhoeddwyd papur cyfathrebu diweddaraf y Comisiwn ym mis Hydref 2010. Roedd yn pwysleisio pwysigrwydd cael sector amaeth a oedd yn ffynnu ar gyfer economi yr Undeb Ewropeaidd a chyfraniad y sector at *Ewrop 2020*, ond yn nodi hefyd pe byddai'r tuedd presennol i barhau, o weld cyllideb PAC yn gostwng, y byddai amaeth yn parhau i fod yn fuddsoddiad cyhoeddus o bwys:

A sustainable EU economy needs a thriving agricultural sector making its contribution to a wide variety of EU objectives – including cohesion, climate change, environmental protection and biodiversity, health and competitiveness, as well as food security. A series of reforms to the Common Agricultural Policy has seen support to farmers increasingly linked to delivering these goals and the share of the CAP in the overall budget falling steadily in recent years. Continuing the trend would still leave agriculture representing a major public investment – one falling on the EU's shoulders, rather than on national budgets.⁵

Pa amcanion ar gyfer PAC yn y dyfodol mae'r papur cyfathrebu yn eu nodi?

Mae'r papur cyfathrebu ar ddyfodol PAC yn nodi tri amcan:

⁵ Y Comisiwn Ewropeaidd, *The EU Budget Review, COM(2010)700*, Hydref 2010 [fel ar 29 Tachwedd 2010

- *Cynhyrchiant bwyd dichonadwy:* Bydd angen i PAC gyfrannu at incymau amaeth sefydlog, gwella ysfa gystadleuol y sector amaeth gan gynyddu cyfran gwerth y sector yn y gadwyn fwyd a gwneud iawn am unrhyw drafferthion cynhyrchu mewn ardaloedd sydd â chyfyngiadau naturiol penodol er mwyn lleihau'r risg o gefnu ar dir.
- *Rheoli adnoddau naturiol a gweithrediadau hinsawdd yn gynaliadwy:* Bydd angen i PAC ddiogelu gwell darpariaethau o nwyddau cyhoeddus amgylcheddol, i feithrin twf gwyrdd drwy arloesiad a dilyn lliniariad ac addasiad newid yn yr hinsawdd.
- *Datblygiad tiriogaethol cytbwys:* Bydd angen i PAC hyrwyddo amrywiaeth o fewn yr economi wledig, i gefnogi amrywiaeth strwythurol yn y system amaeth ac i wella'r amodau ar gyfer ffermydd bach yn bennaf.

Beth mae'r papur cyfathrebu yn ei nodi am brif offerynnau'r PAC?

Yn ei bapur cyfathrebu, mae'r Comisiwn yn nodi tra bydd strwythur dwy golofn y PAC yn parhau bydd angen newid offerynnau presennol PAC y tri opsiwn a gyflwynwyd yn y papur cyfathrebu, fel taliadau uniongyrchol a mesurau'r farchnad, ar gyfer PAC yn y dyfodol.

Taliadau uniongyrchol

Mae'r papur cyfathrebu yn cynnig rhai newidiadau i'r ffordd y caiff taliadau uniongyrchol eu clustnodi ar gyfer ffermwyr ac aelod wladwriaethau ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn yn nodi y bydd angen dosrannu taliadau PAC i'r aelod wladwriaethau'n fwy teg, ond mae'n annhebygol y bydd taliad ar un gyfradd yn cael ei defnyddio gan na fydd hynny'n cydnabod yr amgylchiadau naturiol ac economaidd gwahanol y mae ffermwyr yn eu hwynebu.

Mae'r Comisiwn yn cynnig bod taliadau uniongyrchol i ffermwyr yn y dyfodol yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- Dylai ffermwyr barhau i dderbyn **cymorth incwm sylfaenol** er mwyn darparu yr un cymorth anorfod i'r holl ffermwyr mewn aelod wladwriaeth, yn seiliedig ar hawliau trosglwyddadwy. Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnig cyflwyno **terfyn uchaf ar gyfer taliadau uniongyrchol** a dderbyniwyd gan ffermydd unigol mawr.
- Dylid ehangu'r gofynion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â derbyn taliadau uniongyrchol drwy gyflwyno elfen **orfodol i ffermio gwyrdd** y byddai'n ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr ddilyn cyfres o fesurau amgylcheddol sy'n berthnasol ar draws holl diriogaethau'r Undeb Ewropeaidd.
- Dylid gwneud darpariaethau incwm ychwanegol i amaeth mewn ardaloedd sydd â **chyfyngiadau naturiol penodol**. Bydd y darpariaethau hyn yn **ategu** cymorth i ardaloedd na chânt eu ffafrio o dan yr ail golofn.
- Dylid darparu cymorth penodol i **ffermwyr ffermydd bychan** er mwyn cynyddu'r ysfa gystadleuol a chyfrannu at fywiogrwydd ardaloedd gwledig.
- Dylai taliadau yn y dyfodol fod yn amodol ar reolau **traws-gydsyniol** symlach.

- Dylid targedu cymorth drwy'r taliadau uniongyrchol yn well at **ffermwyr actif yn unig**.

Mesurau'r farchnad

Mae'r papur cyfathrebu'n nodi bod cymorth ar gael ar gyfer cynnal cyfeiriadedd marchnad y PAC ond gan ganiatâu ar gyfer **offerynnau rheoli marchnad symlach** i weithredu fel rhwyd ddiogelwch mewn sefyllfaoedd o argyfwng. Mae'n nodi y bydd rheoliadau ar ansawdd bwyd a chynigion cyfreithiol i weithredu argymhellion y grŵp arbenigwyr lefel uchel ar laeth a chynnyrch llaeth yn cael eu dwyn ymlaen cyn hir. Yn ogystal, mae'r papur cyfathrebu yn cynnig y dylai PAC yn y dyfodol fynd i'r afael â **chydoddoldeb cadwyn cyflenwi bwyd** er mwyn sicrhau bod ffermwyr yn gallu gwyrddroi'r dirywiad yn eu cyfran nhw o'r gwerth a ychwanegwyd gan gyflenwi bwyd a chynyddu eu pwêr i fargeinio.

Datblygu gwledig

Mae'r papur cyfathrebu yn nodi tair nod eang ar gyfer ariannu datblygu gwledig:

- **Gwella ysfa gystadleuol amaethyddiaeth** drwy hyrwyddo arloesedd ac ailstrwythuro;
- **Gwella rheoli adnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy** drwy wella gwydnwch yr amgylchedd ac amaethyddiaeth i newid yn yr hinsawdd;
- **Sicrhau bod datblygiad tiriogaethol cytbwys** drwy adeiladu capasiti mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r papur cyfathrebu hefyd yn nodi y dylai **newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd ac arloesedd** fod yn arwain themâu am **bob cam** a gwblhawyd o dan raglenni datblygu gwledig.

Yn ogystal, mae'r papur yn galw am ddulliau darparu mesurol ac effeithiol ar gyfer cyllido ac am gydlynid gwell rhwng cyllidebau datblygu gwledig a pholisïau eraill yr Undeb Ewropeaidd.

Beth yw'r tri opsiwn polisi ar gyfer PAC yn y dyfodol sydd wedi'u nodi yn y papur cyfathrebu?

Mae'r papur yn nodi **tri opsiwn polisi posibl** ar gyfer PAC yn y dyfodol sydd â'r nod o amlinellu tri llwybr posibl tuag at ei ddiwygio.

- **Opsiwn 1:** Byddai opsiwn 1 yn cyflwyno **newidiadau graddol** i'r polisi cyfredol gan gynyddu agweddau sy'n gweithio'n dda a gwneud rhai **newidiadau** i feysydd nad ydynt mor llwyddiannus, er enghraifft dosrannu taliadau uniongyrchol rhwng aelod wladwriaethau.
- **Opsiwn 2:** Byddai opsiwn 2 yn gofyn am **atgyweirio sylweddol** o'r fframwaith polisi a bod y diwygiadau hynny yn canolbwyntio ar wneud y polisi'n fwy **cynaliadwy, teg ac wedi'i dargedu**. Mae'r papur yn nodi y byddai'r opsiwn hwn yn gwneud PAC yn fwy dealladwy i ddinasyddion, cynhyrchu systemau mwy effeithiol a rhoi rhagor o sylw i'r gwerth a ychwanegir gan amaethyddiaeth. Mae'r papur yn dadlau bod yr opsiwn hwn yn cydfynd â nodau strategaeth Ewrop 2020 yn well.
- **Opsiwn 3:** Byddai opsiwn 3 yn arwain at ddiwygiad **pell-gyrhaeddol** o'r PAC gan

ganolbwyntio ar yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Gyda'r opsiwn hwn, gellir **symud i ffwrdd yn raddol o gymorth incwm a mesurau'r farchnad** gan ganolbwyntio'n glir ar yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd o dan y fframwaith polisi newid yn yr hinsawdd.

Mae rhagor o fanylion am beth fydd pob opsiwn yn ei olygu mewn tabl sydd yng nghefn y datganiad i'r wasg gan y Comisiwn Ewropeaidd ar y papur cyfathrebu. Gellir gweld y datganiad ar wefan y Comisiwn [yma](#).

Wrth baratoi cynigion deddfwriaethol er mwyn gwella'r PAC, bydd y Comisiwn yn cwblhau dadansoddiad o effaith cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y tri opsiwn.

Beth yw'r amserlen a'r broses ar gyfer diwygio?

Mae'r Comisiwn wedi *cyhoeddi ymgynghoriad* er mwyn helpu i **lywio'r asesiad o effaith** a fydd yn cael ei gwblhau ar y papur cyfathrebu. Nod yr ymgynghoriad yw casglu barn o ran a yw'r **amcanion a'r materion** a nodwyd gan y Comisiwn yn y papur cyfathrebu yn **briodol** ac i gasglu **barn** rhanddeiliaid ar y **tri opsiwn posibl** ar gyfer diwygio. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gobeithio casglu dogfennau dadansoddol i gynorthwyo'r Comisiwn i gwblhau ei asesiad o effaith. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal tan **25 Ionawr 2011**.

Wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd y Comisiwn yn **dwyn ymlaen gynigion deddfwriaethol** er mwyn i'r **Cyngor a'r Senedd Ewropeaidd** eu hystyried **yn ystod haf 2011**. Bydd **trafodaethau** rhwng y **Cyngor a'r Senedd Ewropeaidd yn digwydd yn ystod 2012** gyda'r nod o ddod i gytundeb erbyn **2013**.

Ceir **rhagor o wybodaeth** am rôl y gwahanol sefydliadau Ewropeaidd yn y broses ddiwygio yn yr **Hysbysiad hwylus cyntaf yn y gyfres hon**.

Beth yw barn y gwahanol randdeiliaid?

Nid yw Llywodraeth Cymru na Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi datganiadau ffurfiol mewn ymateb i'r papur cyfathrebu eto . Mewn datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd cyn **cyfarfod cyntaf y Cyngor Amaeth** i drafod y papur cyfathrebu, nododd **Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig**:

Fel gyda phob mater sy'n ymwneud â'r PAC, mae'n bwysig deall y manylion yn llawn. Mae'n annhebygol y cawn wybod y manylion hynny tan yr haf nesaf. Yn y cyfamser, rwy'n bwriadu cyfrannu'n llawn at y gwaith o lunio safbwynt negodi'r DU dros y misoedd nesaf mewn ffordd a fydd yn diwallu anghenion Cymru a ffermwyr Cymru. Byddaf yn cydweithio'n agos â chynrychiolwyr buddiannau ffermwyr a chefn gwlad er mwyn cael eu cymorth gyda'r broses honno.⁶

⁶ Llywodraeth Cymru – Datganiad i'r wasg, [Diwygio'r PAC: Elin Jones yn arwain dros Gymru](#), 29 Tachwedd 2010, [fel ar 29 Tachwedd 2010]

Ymddengys bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi datgan er bod y papur cyfathrebu'n anelu am y **cyfeiriad cywir**, bod angen i'r broses ddiwygio fod yn **gyflymach** gan ganolbwyntio ar **hyrwyddo'r awydd i gystadlu**.⁷

Bu **Cyngor Gweinidogion Amaeth yr Undeb Ewropeaidd** yn trafod y papur cyfathrebu am y tro cyntaf ar **29 Tachwedd 2010**. Roedd y Cyngor Amaeth yn **croesawu'r cynigion** yn y papur cyfathrebu ar y **cyfan** gyda'r **mwyafrif o'r Gweinidogion yn ffafrio opsiwn 2** fel yr un cywir ar gyfer y dyfodol.⁸ Yn ystod cyfarfod y Cyngor, nododd **Jim Paice, Gweinidog Amaeth y Deyrnas Unedig**, ei gefnogaeth dros **ganolbwyntio'n well ar yr awydd i gystadlu a chyfeiriadedd y farchnad** o dan fframwaith datblygu cynaliadwy colofn 2 er mwyn galluogi **symud i ffwrdd o fod yn ddibynnol ar gymorthdaliadau incwm uniongyrchol** o dan golofn 1.⁹ Yn ogystal, nododd Gweinidog y Deyrnas Unedig yr angen i **symleiddio'r polisi** a nodi y gallai cynigion y Comisiwn i ychwanegu sawl rhes o gynlluniau talu o dan y cynllun talu uniongyrchol gyfyngu ar y posibilrwydd o symleiddio'r broses yn bellach o dan y diwygiad hwn.¹⁰

Roedd y mwyafrif o **Aelodau Senedd Ewrop (ASE) yn croesawu'r** papur cyfathrebu yn eu dadl gyntaf ar ei gynnwys. Yn benodol, roedd nifer yn croesawu'r sicrwydd y byddai cymorthdaliadau ffermydd yn **canolbwyntio ar ffermwyr actif** ac y byddai'r Comisiwn yn chwilio am **systemau tecach i ddosrannu taliadau uniongyrchol** rhwng aelod wladwriaethau. Galwodd nifer o'r ASEau am symleiddio'r broses ddiwygio a bod llai o fiwrocratiaeth ynghlwm â hi.¹¹

Nododd **Copa-Cogeca**, clymblaid fwyaf Ewrop o undebau amaeth ac amaethwyr cydweithredol, bod y papur cyfathrebu wedi **methu ag ymateb i'r heriau sy'n wynebu ffermwyr yr Undeb Ewropeaidd** ac y byddai gwneud **taliadau uniongyrchol yn fwy gwyrdd yn bygwth hyfywdra economaidd** ac ysfa gystadleuol ffermwyr Ewropeaidd.¹²

Mae **cyrff anlywodraethol amgylcheddol wedi croesawu'r** cyfeiriad y mae'r papur cyfathrebu yn anelu amdano ac yn benodol y cynnig i gynnwys **rhagor o fesurau amgylcheddol gorfodol o dan golofn 1**. Fodd bynnag, mae nifer wedi nodi y bydd y **gwir ymrwymiad i wneud y polisi yn fwt gwyrdd** yn cael eu nodi **ym manylion y cynigion deddfwriaethol** a fydd yn cael eu cyhoeddi gan y Comisiwn yn **2011**.¹³

⁷ Euractiv, [*Brussels outlines vision for 'fairer' EU farm policy*](#), gwefan, 19 Tachwedd 2010 [fel ar 29 November 2010]

⁸ AGRAFACTS, *Farm Council: EU Farm Ministers broadly positive about CAP Communication post-2013*, No.96-10 29.11.2010

⁹ *ibid*

¹⁰ *ibid*

¹¹ AGRAFACTS, *Commission Blueprint on CAP towards 2020- Discussions Now Start in Earnest*, No93-10, 18.11.2010

¹² *ibid*

¹³ *ibid*.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am agweddau ar ddiwygio'r PAC ar ôl 2013, cysylltwch â **Nia Seaton** (Nia.Seaton@cymru.gov.uk), yng Ngwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch y lincs.

- [Gwefan y Comisiwn Ewropeaidd ar y PAC ar ôl 2013](#)
- [Gwefan Llywodraeth Cymru ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin](#)
- [Gwefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddiwygio PAC](#)
- [Gwefan Senedd Ewrop am y Pwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig](#)
- [Gwefan y Cyngor Ewropeaidd](#)
- [Gwefan Sefydliad Polisi Amgylchedd Ewrop ar *CAP2020: Debating the Future of the Common Agricultural Policy*](#)
- [Gwefan Copa-Cogeca](#), gwefan clymblaid fwyaf Ewrop o undebau amaeth ac amaethwyr cydweithredol
- [Gwefan Grŵp Polisi Defnydd Tir](#), gwefan asiantaethau amgylcheddol a chadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig
- [Euractiv](#), gwefan newyddion a dadansoddol o faterion Ewropeaidd sy'n cynnwys crynodeb o farn y prif randdeiliaid i'r papur cyfathrebu

Gallwch weld rhestr lawn o'n [hysbysiadau hwylus](#) yma.

MRS 10/0808 Nia Seaton

Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gov.uk